# Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
# Adolygiad Blynyddol 2022-2023

## 1. Cefndir

1.1 Mae'r papur hwn yn adolygu perfformiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) ar gyfer 2022-2023. Mae'r prif bwyntiau yr Adolygiad hwn wedi'u cynnwys yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2022-2023.

1.2 Prif rôl y Pwyllgor yw darparu cefnogaeth annibynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar faterion sicrwydd a chynorthwyo'r Ombwdsmon i gyflawni ei g/chyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi adolygu a monitro'r prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu, ac mae wedi derbyn ac ystyried canlyniadau archwiliadau mewnol ac allanol. Bu'r Pwyllgor yn chwarae rhan allweddol yn diffinio agweddau ar y gwaith archwilio ac yn monitro ymateb y rheolwyr i'r materion a godwyd.

## 2. Cylch Gorchwyl

2.1 Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd yr Ombwdsmon adolygiad o drefniadau llywodraethu gan gynnwys Cylch Gorchwyl ARAC. Ystyriodd a chytunodd y Tîm Rheoli a'r Pwyllgor ar newidiadau arfaethedig o'r adolygiad hwn ym mis Gorffennaf 2022. Tair blynedd oedd cyfnod aelodau annibynnol yn y swydd, gyda'r dewis i ymestyn am flwyddyn ychwanegol. Yn dilyn yr adolygiad, cynyddwyd y cyfnod a ganiateir ar gyfer estyniad i dair blynedd. Yn ogystal, sefydlwyd rôl yr Is-Gadeirydd, a chytunwyd hefyd y byddai Cadeirydd y Panel Ymgynghorol yn aelod o'r Pwyllgor. Bwriad y newidiadau hyn yw cryfhau craffu a llywodraethu a chynyddu parhad. Mae'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ynghlwm yn Atodiad A.

## 3. Aelodaeth

3.1 Mae'r aelodaeth yn cynnwys o leiaf bedwar, ac uchafswm o wyth, aelod allanol annibynnol. Cynhaliwyd proses recriwtio ym mis Tachwedd 2022 wrth i rai aelodau ddod i ddiwedd eu cyfnod yn y swydd yn 2021 a 2022, a phenodwyd aelod ychwanegol i ARAC o Ionawr 2023. Roedd y canlynol yn aelodau o'r Pwyllgor yn 2022-2023;

- Mr Ian Williams (Cadeirydd).
- Mr Trevor Coxon (hyd nes Ebrill 2022)
- Mr John McSherry
- Mr Mike Usher
- Mrs Joanest Varney-Jackson
- Jane Martin (o fis Hydref 2022)
- Mr Dave Tosh (o fis Ionawr 2023)

Bu Ian Williams yn Gadeirydd drwy gydol y flwyddyn a phenodwyd Mike Usher yn Is-Gadeirydd o Hydref 2022.

3.2 **Presenoldeb Aelodau'r ARAC:** Roedd presenoldeb yr aelodau am y flwyddyn fel a ganlyn:

| Aelod o'r Pwyllgor | Uchafswm nifer y presenoldebau posibl | Gwir nifer y presenoldebau | % mynychwyd |
|---|---|---|---|
| Ian Williams (Cadeirydd) | 4 | 4 | 100 |
| Trevor Coxon | 1 | 1 | 100 |
| John McSherry | 4 | 4 | 100 |
| Mike Usher | 4 | 4 | 100 |
| Joanest Varney-Jackson | 4 | 3 | 75 |
| Jane Martin | 2 | 1 | 50 |
| Dave Tosh | 1 | 1 | 100 |

3.3 **Presenoldeb Arall:** Mae'r Ombwdsmon yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Pwyllgor. Mynychwyd y cyfarfodydd hefyd yn rheolaidd gan archwilwyr allanol (Archwilio Cymru), archwilwyr mewnol (TIAA), aelodau priodol o Dîm Rheoli OGCC ac, fel y bo'n briodol, staff eraill OGCC.

3.4 **Gwrthdaro rhwng buddiannau:** Mae pob aelod o'r Pwyllgor yn llenwi datganiad blynyddol o fuddiannau, sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan OGCC. Hefyd, mae'r eitem gyntaf ar agenda unrhyw gyfarfod o'r ARAC yn gyfle i ddatgan unrhyw fuddiant a oedd yn benodol i eitemau ar agenda'r cyfarfod hwnnw.

3.5 **Cyfnod penodiad:** Mae pob aelod o'r Pwyllgor yn cael ei benodi am gyfnod penodol o dair blynedd. Fel y nodir uchod, mae gan yr Ombwdsmon y dewis i ymestyn hyn am dair blynedd arall. Caiff penodiadau eu cynnwys mewn llythyrau penodi.

## 4. Hyfforddiant

4.1 Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i asesu eu hanghenion hyfforddi yn flynyddol, ac mae'r asesiadau hyn yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau hyfforddi ar gyfer y flwyddyn. Cymerodd yr aelodau ran mewn gweithdy Seiberddiogelwch yn Hydref 2022 a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac Archwilio Cymru.

4.2 Mynychodd aelodau sesiwn hyfforddi (Chwefror 2023) a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan staff ar draws y swyddfa ar eu meysydd gwaith.

4.3 Ar gyfer y flwyddyn 2023/24, dywedodd yr aelodau y byddai hyfforddiant yn y meysydd canlynol o fudd:

- cyllid y swyddfa a'r drefn ariannol y mae'r swyddfa'n gweithio ynddi;
- rheoli risg; a
- mwy o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae'r sefydliad yn gweithio.

Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y cynllun hyfforddi am y flwyddyn.

## 5. Cyfarfodydd a Busnes y Pwyllgor

5.1 Mae agenda ddrafft yn cael ei rannu gyda'r holl aelodau, gan roi cyfle iddynt awgrymu ychwanegiadau neu newidiadau. Mae’r Cadeirydd yn adolygu'r agenda a’r papurau atodol sydd i’w trafod, cyn eu hanfon at aelodau’r Pwyllgor a phobl eraill a fydd yn bresennol.

5.2 Mae’r Pwyllgor yn gosod rhaglen waith flynyddol ar ei gyfer ei hun Mae'r cynllun gwaith hwn, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar gyflawni'r cynllun gwaith, i'w gweld yn Atodiad B. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o’r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Ym mhob cyfarfod, ystyriodd y Pwyllgor sawl eitem sefydlog yr agenda.

5.3 Roedd eitemau sefydlog ar yr agenda yn cynnwys adroddiadau yn ymdrin â datganiadau o unrhyw dwyll neu golledion, gan gynnwys unrhyw golli data a gafodd eu hadnabod. Mewn perthynas â cholli data, er mwyn sicrhau eglurder wrth adrodd, mae OGCC yn darparu tabl i'r Pwyllgor sy'n rhestru math a dyddiad y digwyddiad a chanlyniad ymchwiliad OGCC, gan gynnwys eu cyfeirio at y Comisiynydd Gwybodaeth lle bo hynny'n briodol. Mae OGCC wedi dilyn y Broses Digwyddiadau a Hysbysu Data yn ystod y flwyddyn, gan ganfod a chynnal camau pellach angenrheidiol i gywiro unrhyw ddiffygion mewn prosesau neu systemau. Nid oedd angen gwneud unrhyw atgyfeiriadau at y Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn.

5.4 Ystyriodd pob cyfarfod y Pwyllgor adroddiad ar y risgiau mwyaf a nodwyd. Aeth y Pwyllgor ati i archwilio a herio’r risgiau a adroddwyd i fodloni ei hun bod pob risg allweddol wedi’i nodi. Cafodd mesurau rheoli risg a lliniaru risg hefyd eu hystyried. Cytunodd y Pwyllgor y byddai, o fis Ebrill 2022, yn ystyried un risg yn fwy manwl mewn cyfarfodydd eraill. Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd y Pwyllgor ystyriaeth fanwl o'r risgiau sy'n gysylltiedig â nifer cynyddol y cwynion a wnaed i'r Ombwdsmon a risgiau seiberddiogelwch.

5.5 Ymhob cyfarfod, ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad Monitro Ariannol diweddaraf (chwarterol) a gyflwynwyd i'r Tîm Rheoli. Bwriad hyn yw rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor fod craffu rheolaidd yn digwydd yn y swyddfa ar y sefyllfa ariannol, ac yr ystyriwyd risgiau ariannol a phroblemau mewn rheolaeth ariannol. Yn ogystal, ystyriodd y Pwyllgor y cyfrifon naw mis a’r cyfrifon blynyddol drafft ac adroddiad yr archwilydd, gan gynghori’r Ombwdsmon cyn i'r cyfrifon gael eu llofnodi.

5.6 Roedd y Pwyllgor yn cael adroddiadau hefyd ar nifer o faterion priodol eraill a oedd yn dod o fewn ei gylch gorchwyl. Roedd y rhain yn cynnwys: adolygiad o’r Polisi Chwythu’r Chwiban; diweddariadau ar ddatblygiadau TG pwysig; a materion llywodraethu ariannol a chorfforaethol perthnasol. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adolygiad blynyddol OGCC o Fframwaith Atal Twyll Swyddfa'r Cabinet ac i bolisi atal twyll y sefydliad i fodloni ei hun fod trefniadau priodol ar waith.

5.7 Bu’r Pwyllgor yn cynghori’r Ombwdsmon i sicrhau bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-2023 yn cynnwys gwybodaeth briodol a’i fod yn cydymffurfio ag arferion gorau.

5.8 Mae Rhaglen Waith 2023-2024 arfaethedig ar gyfer ARAC wedi’i atodi fel Atodiad C er gwybodaeth, ac mae ystyriaethau allweddol yn y dyfodol wedi’u nodi yn adran 6 isod.

## 6. Ystyriaethau yn y dyfodol

6.1 Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn 2023-2024 bydd y Pwyllgor yn cyflawni ei waith yn unol â'r Rhaglen Waith yn Atodiad C. Bydd seiberddiogelwch yn parhau i fod yn flaenoriaeth, a bydd y Pwyllgor yn parhau i gynnal ystyriaethau manwl dethol risgiau allweddol.

6.2 Mae adborth o arolygon ac adolygiadau gydag aelodau annibynnol y Pwyllgor wedi awgrymu bod gwaith yn cael ei wneud ar fapio sicrwydd ac ar adolygu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd. Bydd y meysydd hyn yn cael sylw yng ngwaith y Pwyllgor yn ystod blwyddyn 2023/24.

## 7. Archwiliad Mewnol ac Allanol

7.1 Darparodd TIAA wasanaethau archwilio mewnol i OGCC yn ystod y flwyddyn 2022-2023. Roedd y gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn yn dilyn y Strategaeth Archwilio a'r Cynllun Blynyddol a gyflwynwyd ac a gytunwyd gan y Pwyllgor ym mis Ebrill 2022.

7.2 Cynhaliwyd yr archwiliadau canlynol a chafwyd asesiadau cyffredinol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Rheoli Risg – Rheolaethau Lliniaru | Sicrwydd SYLWEDDOL |
| Diogelwch Gwybodaeth - GDPR | Sicrwydd SYLWEDDOL |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | Sicrwydd SYLWEDDOL |
| Pwerau Rhagweithiol / Newydd | Sicrwydd SYLWEDDOL |
| Rheoli Perfformiad Staff | Sicrwydd SYLWEDDOL |
| Rheolaethau Ariannol Allweddol: | Sicrwydd SYLWEDDOL |
| Gwaith dilynol ar argymhellion blaenorol | (Lefel sicrwydd ddim yn berthnasol) |

Canfu gwaith archwilio TIAA fod gan y sefydliad brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu effeithiol ar waith. Lle bo angen, gwnaed argymhellion ar gyfer gwella.

7.3 Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod lefel sicrwydd '**Sylweddol'** wedi'i rhoi ym mhob achos, sef y lefel sicrwydd uchaf, a bod yr adolygiad Dilynol o argymhellion blaenorol wedi canfod eu bod i gyd wedi'u gweithredu.

7.4 Nodwyd yn Adroddiad Blynyddol yr archwilwyr mewnol ar gyfer 2022-2023: 'Mae TIAA yn fodlon, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, fod gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith.' Mae'r casgliadau hyn yn rhoi sicrwydd bod y trefniadau ar waith yn gwneud y swyddfa'n llai agored i risg, ac yn rheoli'r risg honno.

7.5 Rhaid i'r rôl archwilio allanol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, gael ei chyflawni ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Swyddfa Archwilio Cymru wnaeth y gwaith hwnnw yn ystod y flwyddyn. Bu'r Pwyllgor yn ystyried elfen cyfrifon Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol OGCC ar gyfer 2021-2022, ynghyd â'r Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a Llythyr y Rheolwyr. Rhoddwyd barn ddiamod ar Gyfrifon 2021-2022 ar 20 Gorffennaf 2022.

7.6 Ystyriodd y Pwyllgor Ddatganiad Llywodraethu drafft y swyddfa ar gyfer 2022-2023, gan gytuno arno.

7.7 Mae gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr hawl i godi unrhyw fater drwy bolisi mynediad agored at y Cadeirydd, os ystyrir hynny'n briodol, a thrwy'r hawl honno i ddwyn unrhyw fater i sylw'r Pwyllgor. Sicrhaodd y Pwyllgor, drwy adolygu rhaglenni'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol, eu bod yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd. Mae ansawdd y gwaith archwilio a safon gwaith y Pwyllgor wedi cael ei werthuso yn ystod y flwyddyn drwy ystyried yr adroddiadau archwilio a'r argymhellion a thrwy ddeialog mewn cyfarfodydd rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr.

7.8 I sicrhau y gellir codi materion priodol yn gyfrinachol, mae cyfarfod byr yn cael ei gynnal rhwng yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol a holl Aelodau Annibynnol ARAC cyn pob cyfarfod ARAC. Yn ychwanegol, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfod bob blwyddyn â chynrychiolwyr yr Archwilwyr Allanol a Mewnol. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn 27 Mawrth 2023.

## 8. Prosesau Monitro

8.1 Ym mhob cyfarfod yn ystod 2022-2023, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu ar argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn fodlon bod yr holl argymhellion a wnaed wedi cael neu y byddent yn cael eu rhoi ar waith o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

## 9. Adolygiad Blynyddol

9.1 Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i adolygu sut mae'r Pwyllgor yn gweithredu i sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r Egwyddorion Arferion Da sydd yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg Trysorlys EM. Mae pedwar ymarferiad asesu allweddol sy'n cyfrannu at yr adolygiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ymarferiad hunanasesu a gafodd ei ddilyn gan holl aelodau'r Pwyllgor;
- pob aelod o'r Pwyllgor i lenwi fersiwn wedi'i theilwra o "Restr Wirio Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg" y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- asesiad, gan gynrychiolwyr archwilio mewnol ac allanol, aelodau'r Pwyllgor ac aelodau o staff OGCC sy'n mynychu'r Pwyllgor yn rheolaidd, o berfformiad a chyfraniad y Pwyllgor; ac
- adolygiadau un i un a thrafodaeth yn cynnwys aelodau'r Pwyllgor a Chadeirydd y Pwyllgor.

Mae'r sylwadau o'r ymarferiadau hyn wedi cael eu hystyried wrth baratoi'r Adolygiad Blynyddol hwn.

9.2 Yn yr ymarferiad hunanasesu, cafwyd sylwadau cadarnhaol gan bob Aelod o'r Pwyllgor yn y meysydd canlynol:

- Perfformiad yn erbyn yr Amcanion
- Cyflawniadau ac Effeithiolrwydd Personol
- Cysylltiadau Gweithio
- Asesiad o Berfformiad y Pwyllgor

9.3 Dangosodd yr ymatebion bod aelodau'r Pwyllgor o'r farn gyffredinol bod y Pwyllgor yn elwa ar ystod dda o brofiad a gwybodaeth ar draws ei aelodaeth. Nododd rhai bod trosiant aelodau wedi arwain at ychwanegu sgiliau a phrofiad newydd, a hefyd colli mewnbwn gan aelodau a oedd yn dod i ddiwedd eu cyfnod yn y swydd. Dywedodd yr Aelodau fod yr Ombwdsmon a'r staff wedi ymateb ac wedi ymgysylltu yn gadarnhaol â'r Pwyllgor.

9.4 Mae pob aelod o’r Pwyllgor wedi llenwi holiadur wedi'i theilwra o restr wirio’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Ar y cyfan, ymatebodd aelodau yn gadarnhaol i’r cwestiynau a ofynnwyd. Gwnaeth rhai sylwadau ar barhad mewnbwn archwilio mewnol, gan y bu nifer o wahanol fynychwyr yn ystod y flwyddyn, ond croesawodd yr aelodau ymrwymiad yr archwilwyr mewnol i sicrhau mwy o barhad o ran cynrychiolaeth archwilio mewnol.

9.5 Yn y trydydd o’r ymarferiadau asesu y cyfeiriwyd atynt uchod, gofynnwyd i gynrychiolwyr archwilio mewnol ac allanol, ac aelodau o staff OGCC sy’n mynychu cyfarfodydd ARAC yn rheolaidd, i lenwi arolwg ac ateb cwestiynau am berfformiad a chyfraniad y Pwyllgor. Roedd y cwestiynau’n ymdrin â chyfathrebu rhwng y ARAC a’r sefydliad, pa mor effeithiol yw’r cyfarfodydd, sut y cadeiriwyd y cyfarfodydd, gwybodaeth a phrofiad y Pwyllgor, gonestrwydd ac ymddiriedaeth, a p’un a yw'r Pwyllgor yn darparu her adeiladol ai peidio. Roedd pob un ymateb yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn ynglŷn â gweithrediad a chyfraniad y Pwyllgor ar draws yr holl feysydd hyn.

9.6 Yn olaf, mae’r Ombwdsmon yn cyfarfod â’r Cadeirydd i drafod ac adolygu gwaith yr ARAC drwy gydol y flwyddyn ac yn cwblhau trafodaeth ac adolygiad blynyddol. Mae trafodaethau un i un blynyddol yn cynnwys y Cadeirydd ac aelodau unigol y Pwyllgor yn rhoi adborth ar weithgareddau’r Pwyllgor a’r ffordd y cynhelir y cyfarfodydd. Roedd yr adborth a’r sylwadau yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, ond hefyd yn nodi meysydd ar gyfer hyfforddiant pellach a meysydd i’w hystyried gan y pwyllgor yn y dyfodol, fel y sonnir ym mharagraff 6.2 uchod.

## 10. Asesiad Cyffredinol

10.1 Wrth ddatblygu’r Adolygiad hwn, mae’r Pwyllgor wedi’i fodloni ei fod wedi cael y sicrwydd cynhwysfawr sydd ei angen arno i ddiwallu ei anghenion a bod yr wybodaeth a gafodd yn ystod y flwyddyn wedi bod yn ddibynadwy ac yn ddigonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau. Mae wedi’i fodloni hefyd fod y sicrwydd yn dangos bod yr amgylchedd rheolaeth fewnol cyffredinol, adroddiadau ariannol, rheoli risg ac ansawdd y gwaith Archwilio Allanol a Mewnol yn foddhaol. Wrth gyflawni ei rôl mae’r cyswllt y mae’r Pwyllgor wedi’i gael â’r Ombwdsmon a’i staff sydd wedi cael eu craffu a’u herio wrth gyflawni’u dyletswyddau wedi rhoi sicrwydd i’r Pwyllgor.

10.2 Hefyd, mae’r Pwyllgor yn ystyried ei fod yn gallu cyflawni ei rôl yn effeithiol am fod gwybodaeth ar gael gan y rhai sy’n gweithio yn swyddfa’r Ombwdsmon ac o’r gwaith a wnaed gan archwilwyr mewnol ac allanol. Mae natur yr wybodaeth honno a’r ffordd mae’n cael ei chyflwyno yn golygu bod modd cyfnewid barn a chyngor mewn modd cefnogol a heriol, ac mae hynny wedi galluogi’r Pwyllgor i gefnogi’r Ombwdsmon.

10.3 Felly, mae’r Pwyllgor wedi gallu rhoi sicrwydd i gefnogi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn effeithiol i gydymffurfio â’i chyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Wrth wneud hyn, mae’r Pwyllgor yn hyderus ei fod wedi cyflawni ei rôl yn gadarn ac yn broffesiynol wrth ddarparu’r sicrwydd hynny, gan fanteisio ar arbenigedd a phrofiadau helaeth aelodau’r Pwyllgor.

10.4 Wrth adolygu ei berfformiad ei hun bob blwyddyn, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi rhoi her i aelodau unigol asesu eu perfformiad a’u cyfraniad eu hunain. Mae’n ystyried bod y Pwyllgor wedi gweithredu’n effeithiol ac yn unol ag arfer da.

## 11. Diolchiadau

11.1 Mae'r Cadeirydd yn ddiolchgar i Aelodau Annibynnol y Pwyllgor, Trevor Coxon, Mike Usher, John McSherry a Joanest Varney-Jackson, Jane Martin a Dave Tosh am eu gwaith, eu cyfraniadau, eu cymorth a'u cefnogaeth. Mae'r Cadeirydd yn ddiolchgar i Clare James a Jeremy Saunders o Archwilio Cymru a Helen Cargill a'i thîm yn TIAA am eu cefnogaeth a'u cyngor yn ystod y flwyddyn. Yn yr un modd, hoffai ddiolch i'r Ombwdsmon, ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor, aelodau Tîm Rheoli OGCC a staff am eu cyfraniadau drwy gydol y flwyddyn.

| |
|---|
| Atodiad A - Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg<br>Atodiad B - Rhaglen Waith 2022-2023<br>Atodiad C - Rhaglen Waith 2023-2024 |

*********************************************************************************

**Atodiad A**

# Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg - Cylch Gorchwyl

**Statws y Pwyllgor**
Mae'r Ombwdsmon wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'i rôl yw cefnogi'r Ombwdsmon mewn perthynas â chyfrifoldebau dros faterion risg, rheoli a llywodraethu, drwy adolygu ehangder y sicrwydd wrth ddiwallu anghenion sicrwydd y Swyddog Cyfrifyddu ac adolygu dibynadwyedd ac integriti'r sicrwydd hwn.

**Aelodaeth**
Dyma aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg:

- isafswm o bedwar ac uchafswm o wyth aelod allanol annibynnol (sy'n cynnig sgiliau a phrofiad penodol a geisir gan yr Ombwdsmon a gall gynnwys unigolyn o swyddfa ombwdsmon arall).
- hyd at ddau aelod cyfetholedig.

Bydd y Prif Swyddog Gweithredu & Chyfarwyddwr Gwelliant yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Pwyllgor. Bydd yr Ombwdsmon, ac aelodau eraill o'r Tîm Rheoli, yn ôl penderfyniad yr Ombwdsmon, yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Cyfnod yr aelodau Annibynnol yn y swydd fydd tair blynedd. Mae gan yr Ombwdsmon yr opsiwn i ymestyn y tymor hwn am dair blynedd arall.

Un o'r aelodau allanol annibynnol fydd yn Cadeirio'r cyfarfodydd. Bydd Is-Gadeirydd hefyd yn cael ei benodi. Bydd yr Ombwdsmon yn penodi aelod annibynnol o'r Pwyllgor i fod yn Gadeirydd ac Is-Gadeirydd ar sail argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Pe bai'r Ombwdsmon yn penderfynu peidio â derbyn argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, caiff
penderfyniad yr Ombwdsmon ei nodi yng nghofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

**Rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor**
Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn craffu ar ac yn rhoi cyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu ynglŷn â'r canlynol:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol;
- y cynlluniau Strategol a Busnes drafft ar sail cydymffurfiaeth, economaidd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i gydnabod y gofyniad yn yr archwiliad blynyddol i roi cyfrif am y defnydd o arian;
- polisïau cyfrifyddu, cyfrifon, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr sylwadau'r rheolwyr at yr archwilwyr allanol;

- y gweithgarwch arfaethedig a chanlyniadau’r archwiliad mewnol ac allanol;
- pa mor ddigonol yw ymateb y rheolwyr i faterion a ganfuwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr y rheolwyr am archwilio allanol;
- sicrwydd sy’n ymwneud â gofynion llywodraethu corfforaethol y sefydliad;
- (pan fo’n briodol) cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu’r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig;
- Trefniadau parhad busnes;
- Trefniadau Iechyd & Diogelwch;
- hefyd, bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd.

**Hawliau**
Gall yr Ombwdsmon a’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg:

- gyfethol aelodau am gyfnod (dim mwy na blwyddyn) i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol sydd eu hangen ar y Pwyllgor ar adeg benodol;
- cael cyngor ad-hoc arbenigol, yn amodol ar fod o fewn y gyllideb.

**Mynediad**

- Bydd gan gynrychiolydd yr Archwiliad Mewnol a chynrychiolydd yr Archwiliad Allanol fynediad rhydd a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

**Cyfarfodydd**

- Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Gall Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg neu'r Ombwdsmon alw cyfarfodydd ychwanegol, fel sy’n ofynnol yn eu barn nhw.
- Bydd gofyn bod o leiaf tri aelod annibynnol o’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn bresennol er mwyn i’r cyfarfod gael ei ystyried yn gyfarfod â chworwm.
- Os na fydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn gallu dod i gyfarfod, bydd yr Is-Gadeirydd yn cymryd y gadair neu os na allant ddod i’r cyfarfod, bydd aelod annibynnol arall yn cadeirio'r cyfarfod.
- Fel arfer, bydd y canlynol yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg: yr Ombwdsmon; Prif Swyddog Gweithredu & Chyfarwyddwr Gwelliant; Prif Gynghorwr Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau; Rheolwr TG; y Cyfrifydd Ariannol; cynrychiolwyr o Archwilio Mewnol, a chynrychiolwyr o Archwilio Allanol
- Gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ofyn i unrhyw swyddog arall o’r swyddfa i fod yn bresennol i’w gynorthwyo gyda’i drafodaethau ynglŷn ag unrhyw fater.
- Gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wahodd pobl neu gyrff eraill i fynychu cyfarfodydd er mwyn rhoi cyngor proffesiynol neu wybodaeth am unrhyw fater y mae'r Pwyllgor yn ystyried ei fod yn berthnasol ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau’n briodol.
- Gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ofyn i unrhyw un, neu bawb, sy'n arfer mynychu'r cyfarfod ond nad ydynt yn aelodau, adael yr ystafell er mwyn hwyluso trafodaeth agored ac onest ar faterion penodol.

**Datganiad o Fuddiannau Aelodau**
Mae'n ofynnol i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau personol yn unol â pholisi OGCC ar [Ddatgan Buddiannau] gan aelodau'r Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

**Gofynion o ran Gwybodaeth**
Ar gyfer pob cyfarfod, bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael y canlynol:

- adroddiad yn crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol i Gofrestr Risgiau'r sefydliad, yn ogystal â rhestr o eitemau risg Uchel a Chanolig;
- adroddiad cynnydd gan gynrychiolydd Archwilio Mewnol yn crynhoi'r canlynol:
    - y gwaith a gyflawnwyd (a'i gymharu â'r gwaith a fwriadwyd);
    - materion allweddol sy'n deillio o waith Archwilio Mewnol;
    - ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio;
    - newidiadau i'r Cynllun Cyfnodol;
    - unrhyw faterion yn ymwneud ag adnoddau sy'n effeithio ar y gwaith o gyflawni amcanion Archwilio Mewnol.
- adroddiad neu adroddiadau am unrhyw achosion arwyddocaol o dorri fframwaith rheoli'r sefydliad, twyll ariannol, colledion, gwaredu asedau, dileu, caffael y tu allan i'r trefniadau arferol ac unrhyw faterion eraill y mae'r Pwyllgor yn gofyn am gael eu hysbysu amdanynt ymhob un o'i gyfarfodydd.

Bydd y cynrychiolydd Archwilio Allanol yn adrodd fel y bo'n briodol ar unrhyw waith sydd wedi'i wneud a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Pan fo'n briodol, rhoddir y canlynol i'r Pwyllgor hefyd:

- y Strategaeth Archwilio Mewnol;
- cynigion ar gyfer Cylch Gorchwyl yr Archwiliad Mewnol;
- copi o'r holl adroddiadau archwilio mewnol a gyhoeddwyd;
- Barn ac Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol;
- unrhyw adroddiadau sicrhau ansawdd ar y swyddogaeth Archwilio Mewnol ac Allanol;
- cyfrifon drafft y sefydliad;
- y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft;
- adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisïau cyfrifyddu;
- Adroddiad ISA 260 Archwilio Mewnol a llythyr y rheolwyr mewn perthynas â hynny;
- adroddiad llafar ar y prosesau cydweithio rhwng gwaith Archwilio Mewnol ac Allanol;
- cynigion ar gyfer tendro ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol neu Allanol neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- unrhyw newidiadau i'r polisi a'r strategaeth rheoli risg;
- unrhyw newidiadau i bolisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig;
- cynigion ar gyfer newidiadau sylweddol i unrhyw elfennau o'r fframwaith rheoli.

**Adrodd**

- Bydd pob cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael ei gofnodi mewn cofnodion a fydd yn cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.
- Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn rhoi Adroddiad Blynyddol i'r Swyddog Cyfrifyddu, wedi'i amseru i ategu'r gwaith o lunio'r cyfrifon a'r Datganiad

Llywodraethu Blynyddol, gan grynhoi ei gasgliadau o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.

- Nodyn: I osgoi unrhyw amheuaeth ac yn unol â'r Cylch Gorchwyl hwn, nid oes gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg nac unrhyw aelodau unigol unrhyw rôl na chylch gwaith mewn perthynas â phenderfyniadau gwaith achos a wneir gan OGCC a rôl ymgynghori yn unig sydd ganddynt mewn materion gweithredol.

******************************************

Wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Rheoli ar 12 Gorffennaf 2022
Wedi'i gadarnhau gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 20 Gorffennaf 2022
Adolygiad Nesaf:  Gorffennaf 2023

**Atodiad B**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**Rhaglen Waith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) 2022-2023**

| **Ebrill 2022** |
|---|
| Cyfrifon Naw Mis<br>Datganiad Llywodraethu Drafft<br>Archwilio Allanol – Crynodeb o Strategaeth Archwilio 2022-2023<br>Adroddiad Blynyddol ARAC<br>Adroddiad Monitro Ariannol<br>Y Gofrestr Risgiau<br>Archwiliad Mewnol - Adroddiad Blynyddol 2021-2022<br>Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2022-2023<br>Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)<br>Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiad Cynnydd<br>Materion y mae’n rhaid rhoi gwybod amdanynt i’r ARAC<br>Prosiectau TGCh |

| **Mai 2022** |
|---|
| Cyfrifon Blynyddol Drafft 2021-2022 i'w dosbarthu i aelodau ARAC |

| **Gorffennaf 2022** |
|---|
| Cyfrifon Blynyddol 2021-2022 (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu)<br>Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a Llythyr y Rheolwyr<br>Adroddiad Monitro Ariannol<br>Y Gofrestr Risgiau Llawn (gan gynnwys risgiau isel)<br>Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)<br>Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiad Cynnydd<br>Materion eraill y mae’n rhaid rhoi gwybod amdanynt i’r ARAC<br>Prosiectau TGCh<br>Adroddiad Chwythu'r Chwiban Blynyddol |

| **Hydref 2022** |
|---|
| Adroddiad Monitro Ariannol<br>Adolygiad blynyddol o’r Polisi Rheoli Risg<br>Y Gofrestr Risgiau<br>Ystyriaeth fanwl o un risg allweddol<br>Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)<br>Archwilio Mewnol - Adroddiad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio<br>Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiad Cynnydd<br>Adolygu'r fframwaith Atal Twyll, trefniadau gwrth-lygredd a’r polisi gwrth-dwyll<br>Materion eraill y mae’n rhaid rhoi gwybod amdanynt i’r ARAC<br>Prosiectau TGCh |

| **Ionawr 2023** |
|---|
| Adroddiad Monitro Ariannol<br>Cyfrifon Naw Mis<br>Y Gofrestr Risgiau<br>Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)<br>Archwilio Mewnol - Adroddiad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio<br>Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiad Cynnydd<br>Adolygu’r Cylch Gorchwyl a’r Rhaglen Waith<br>Materion eraill y mae’n rhaid rhoi gwybod amdanynt i’r ARAC<br>Prosiectau TGCh |

| **Ebrill 2023** |
|---|
| Cyfrifon Naw Mis |
| Datganiad Llywodraethu Drafft |
| Archwilio Allanol – Crynodeb o Strategaeth Archwilio 2023-2024 |
| Adroddiad Blynyddol ARAC |
| Adroddiad Monitro Ariannol |
| Y Gofrestr Risgiau |
| Ystyriaeth fanwl o un risg allweddol |
| Archwiliad Mewnol - Adroddiad Blynyddol 2022-2023 |
| Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2023-2024 |
| Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl) |
| Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiad Cynnydd |
| Materion eraill y mae’n rhaid rhoi gwybod amdanynt i’r ARAC |
| Prosiectau TGCh |

**Atodiad C**

# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
# Rhaglen Waith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) 2023-2024

## Ebrill 2023

Datganiad Llywodraethu Drafft
Archwilio Allanol – Crynodeb o Strategaeth Archwilio 2023-2024
Ymholiadau Archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli
Adroddiad Monitro Ariannol 2022-23
Alldro dangosol 2022-23
Y Gofrestr Risgiau
Ystyriaeth fanwl o risg allweddol
Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)
Archwiliad Mewnol - Adroddiad Blynyddol 2022-2023
Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiadau Cynnydd
Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2023-2024
Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth
Materion eraill y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i ARAC
Adolygiad o Effeithiolrwydd ARAC
Adolygiad Blynyddol ARAC

## Mai / Mehefin 2023

Cyfrifon Blynyddol Drafft 2022-2023 i'w dosbarthu i aelodau ARAC

## Gorffennaf 2023

Cyfrifon Blynyddol 2022-2023 (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu)
Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a Llythyr y Rheolwyr
Adroddiad Monitro Ariannol
Y Gofrestr Risgiau
Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)
Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiadau Cynnydd
Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth
Materion eraill y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r ARAC
Adolygiad o'r Polisi Chwythu'r Chwiban ac Adroddiad Blynyddol Chwythu'r Chwiban
Adolygu Cylch Gorchwyl ARAC

## Hydref 2023

Adroddiad Monitro Ariannol
Adolygiad blynyddol o'r Polisi Rheoli Risg
Y Gofrestr Risgiau
Ystyriaeth fanwl o risg allweddol
Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)
Archwilio Mewnol - Adroddiad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio
Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiadau Cynnydd
Adolygu'r fframwaith Atal Twyll, trefniadau gwrth-lygredd a'r polisi gwrth-dwyll
Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth
Materion eraill y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r ARAC
Adolygiad a diweddariad blynyddol Parhad Busnes
Diweddariad Archwilio Cymru

| **Ionawr 2024** |
|---|

Adroddiad Monitro Ariannol
Cyfrifon Naw Mis
Y Gofrestr Risgiau
Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)
Archwilio Mewnol - Adroddiad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio
Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiadau Cynnydd
Adolygiad o Raglen Waith ARAC
Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth
Materion eraill y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r ARAC
Diweddariad blynyddol Iechyd a Diogelwch
Diweddariad Archwilio Cymru

**Rhaglen Waith 2024-2025**

| **Ebrill 2024** |
|---|

Datganiad Llywodraethu Drafft
Archwilio Allanol – Crynodeb o Strategaeth Archwilio 2024-2025
Ymholiadau Archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli
Alldro dangosol 2023-24
Adroddiad Blynyddol ARAC
Adroddiad Monitro Ariannol 2023-24
Y Gofrestr Risgiau
Ystyriaeth fanwl o risg allweddol
Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)
Archwiliad Mewnol - Adroddiad Blynyddol 2023-2024
Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2024-2025
Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiadau Cynnydd
Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth
Materion eraill y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r ARAC
Adolygiad o Effeithiolrwydd ARAC
Adolygiad Blynyddol ARAC

**Nodyn:** Hydref 2024 - Adolygiad o Bolisïau Ariannol a Chaffael